Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***10.00 AM - DYDD MAWRTH, 16 MEHEFIN 2020***

***<u>O BELL TRWY TEAMS</u>***

**RHAID GOSOD POB FFÔN SYMUDOL AR Y MODD DISTAW AR GYFER PARHAD Y CYFARFOD**

**<u>Rhan 1</u>**

1. Datganiadau o fuddiannau

2. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**<u>Adroddiad/au Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd</u>**

**<u>Adran A - Materion i'w Penderfynu</u>**

**<u>Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth</u>**

3. Cais Rhif. P2019/5574 - Pentref Trefol Coed Darcy Llandarcy Castell-nedd *(Tudalennau 5 - 20)*
   Cais dan Adran 106A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i addasu cytundeb Adran 106 gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarparu isadeiledd strategol gan gynnwys ffordd fynediad deheuol a ffordd gyswllt strategol, ysgolion a chyfleusterau cymunedol, tai fforddiadwy a gwelliannau i gyffordd yr M4 ym Mhentref Trefol Coed Darcy, Llandarcy, Castell-nedd.

4. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972.

**S.Phillips**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 10 Mehefin 2020**

**Aelodaeth Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.Paddison**

**Is-Gadeirydd:** **S.Pursey**

**Aelodau:** Councillors C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac M.Protheroe

**Aelod Cabinet:** Councillor A.Wingrave

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning.

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y

Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn 2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.